

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Golygyddion

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys y Pedair Tudalen.

Ebeneser, Caerdydd - 24 awr gweddi

Ychydig fisoedd
yn ôl fe gafodd
Gwilym Jeffs y
syniad o gynnal
pedair awr ar
hugain o weddi ac
ympryd er mwyn



gweddi yn daer dros waith yr Arglwydd
yn Ebeneser, Caerdydd, Cymru a'r byd
mawr crwn. Trodd y weledigaeth yn
weithred a gynhaliwyd o chwech o'r gloch
nos Wener 14 Gorffennaf hyd chwech o'r
gloch nos Sadwrn 15 Gorffennaf yn
Eglwys y Ddinas, Windsor Place.
Paratowyd amserlen a lanwyd gan aelodau
a chyfeillion Ebeneser. Roedd cyfle i bobl
weddi gartref os nad oeddent yn gallu dod
i'r capel a diolch o galon i'r rhai a wnaeth
hynny.

Yn yr oruwch ystafell, Eglwys y
Ddinas, Windsor Place, gosodwyd bwrdd
gweledigaeth, 'lein ddillad' er mwyn i bobl
osod adnodau, coeden weddi lle crogwyd
testunau gweddi a map o Gymru.
Cynhaliwyd cyfarfod Clwb Ieuenctid y
MOB yno ar nos Wener ac ymarfer Sela, y
band mawl, ar y dydd Sadwrn. Daeth y
gweithgaredd i ben gyda barbeciw yng
nghartref Arfon a Rachel Jones. Diolchwn
iddynt am agor eu cartref unwaith eto ar
ein cyfer.

Dewisodd rhai ymprydio trwy hepgor
prydau bwyd a dewisodd eraill ymprydio
trwy ddulliau eraill e.e. peidio â defnyddio
ffôn symudol, cyfrifiadur na theledu am 24
awr.

Cryfder y digwyddiad oedd ei fod yn
canolbwyntio ein meddyliau ar weddi ac ar
yr angen i ymostwng o flaen Duw gan ildio
i'w ewyllys. Ar hyn o bryd mae sefyllfa
ysbrydol ein cenedl yn echrydus ac ni fydd
y sefyllfa yn newid ond trwy ymyriad
uniongyrchol Ysbryd Duw. Felly rhaid
gweddi yn daer ac yn gyson:

Pwy ohonoch chi fyddai'n rhoi carreg
i'ch plentyn pan mae'n gofyn am fara?
Neu neidr pan mae'n gofyn am
bysgodyn? Felly os dych chi sy'n ddrwg
yn gwybod sut i roi anrhegion da i'ch
plant, mae'ch Tad yn y nefoedd yn siŵr
o roi rhoddion da i'r rhai sy'n gofyn
iddo! (Mat 7:9-11)

**SEILO, LLANGELER**

Ddydd Sul, 2
Gorffennaf,
ailagorwyd y
capel yn Seilo,
Rhos, Llangeler,
gan Mrs Megan
Jones. Mae
Mrs Megan Jones
yn 98 oed ac
mae'n dal yn
ffyddlon i'r
oedfaon yn y
capel lle
y bedyddiwyd hi.



Newidiwyd tu fewn yr adeilad yn llwyr,
diflannodd yr oriel a'r corau, y pulpud a'r
côr mawr. Bellach mae'r capel yn olau a
chyfforddus. 'Er bod hiraeth am yr hen
gapel, wrth reswm,' meddai Mrs Jones,
'rhaid wynebu'r oes sydd ohoni ac mae'r
capel ar ei newydd wedd yn help inni
wneud hynny.'

Cynhaliwyd oedfa arbennig o dan
arweiniad Guto Prys ap Gwynfor, y
gweinidog, a bwysleisiai'r pwysigrwydd o
ddysgu o'r gorffennol, edrych ymlaen yn
obeithiol i'r dyfodol er mwyn gallu
gweithredu'n fwy effeithiol yn y presennol
gan osod Iesu fel llinyn mesur dros y
ffordd y dehonglwn y cyfan.

Guto Prys

Nid oes ond dy ras yn unig a ddiwalla feisiau mawr;
O rho'r profiad bendigedig o'i effeithiau imi nawr:
Arglwydd gwrandio mewn trugaredd ar llef.
MEIGANT, 1851-99



Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Y GYMDEITHAS
HANESDathlu 450 mlynedd ers cyhoeddi
Y Testament Newydd Cymraeg
gan William Salesbury

Darlith: Dr. E Gwynn Matthews

Capel Coffa
Henry Rees
LLANSANNAN
Nos Fercher
4 HYDREF
7.30

Croeso cynnes iawn i bawb

150
1867-2017

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrwl 150

Rhif 34

Awst 24, 2017

50c.

Dathlu yn Leipzig a Wittenberg

Trydedd rhan
adroddiad y
Parchg Ddr.
Noel Davies o
Gyngor
Cyffredinol
Cymunedb
Byd-eang yr
Eglwysi
Diwygiedig.

Cynhaliwyd yr
oedfa

agoriadol yn y
St Nikolaikirche yn Leipzig. Dyma un o
eglwysi diwygiedig mwyaf nodedig
Leipzig. Yma, yn ogystal ag yn y
Thomaskirche, y bu Johann Sebastian Bach
yn organydd acyn gôrfeistr. Yma hefyd y
cynhaliwyd cyfarfod gweddi ac
astudiaethau Beiblaidd wythnosol a
ysgogodd yn 1989 brotestiadau a
arweiniodd at chwalu gwladwriaeth
gomiwnyddol Dwyrain yr Almaen,
dymchwel mur Berlin ac aduno Gorllewin
a Dwyrain yr Almaen i ffurfio
gwladwriaeth unedig newydd. Mae'n
anhygoel (ac yn ysbrydoliaeth) i feddl
fod gweddi ac astudiaeth Feiblaidd yn
medru cael dylanwad mor rymus nid yn
unig ar yr eglwys ond ar y boblogaeth yn
gyffredinol.

Bugail Gwrol

Arweinwyd y
cyfarfod hwn
am bump o'r
gloch bob nos
Lun gan fugail
yr eglwys ar y
pryd, y
diweddar
Christian

Führer. Fe'i disgrifiwyd ar un wefan fel,
'bugail gwrol y Nikolaikirche'. Drwyddo
ef y penderfynodd yr eglwys fod yn '*offen
für alle*: yn agored i bawb'. Arweiniodd
hyn at orymdeithiau drwy strydoedd
Leipzig (a dinas oedd a threfi eraill gydag
amser) gyda miloedd lawer o bobl yn
cerdded drwy'r ddinas yn cario
canhwyllau fel tystiolaeth ddi-drais i'r
awydd am ryddid a chyfiawnder i bobl
Dwyrain yr Almaen oeddynt dan
awdurdod yr Undeb Sofietaidd. A dyma
arweiniodd at chwyldro heddychol 1989.



Berlin yr 80au

Bûm yn yr Almaen
o'r blaen. Euthum i
Berlin ynghanol yr
80au a chael cyfle i
weld y mur erchyll
a'r milwyr a'u
gynnau yn barod i
saethu unrhyw un a
geisiai ddianc. Rai
blynyddoedd yn
ddiweddarach,
euthum i Genefa i

gyfarfod, ac yn nhir y Ganolfan
Ecwmenaidd, lle'r oedd swyddfeydd
Cyngor Eglwysi'r Byd (a Chynghrair Byd-
eang yr Eglwysi Diwygiedig ar y pryd)
roedd darn enfawr o goncrit, a graffiti
Almaenig arno. Darn o Fur Berlin oedd
hwn a oedd wedi ei chwalu erbyn hynny.
Dyna'n hatgoffa, pan mae'n gobaith yn
gwanychu, fod muriau yn cael eu
dymchwel a byd newydd yn dod i fod, a
bod y 'Duw byw yn adnewyddu a
thrawsffurfio' o hyd.

Grym Gweddi

Mae'r traddodiad o oedfaon gweddi yn
parhau a chawsom ymuno â'r gynulleidfa
arferol ar nos Lun y Cyngor. Braint fawr
oedd cael bod yn rhan o oedfa mor
arbennig ac arwyddocaol. Cafwyd cyfle i
gofio am y dioddefaint a'r gormes sy'n dal
i ddigwydd mewn gwledydd ar draws y
byd. Cawsom gyfle hefyd i gynnau
cannwyll fel arwydd gweledig o'n
gweddiâu. Mewn cynhadledd fel hon, pan
roedd cyd-Gristnogion a chynifer o
wledydd yn bresennol, roedd yn anodd i ni
o Gymru ddechrau dychmygu beth mae'n
ei olygu i fod yn Gristion yn rhai o'r
mannau y daethai rhai o'n cyd-
gynadleddwyr ohonynt. Dyma agwedd



Seion, Porth Tywyn

Cynhaliwyd oedfa i gau capel Seion, Porth
Tywyn ym mis Gorffennaf. Y mae'r
eglwys yn parhau ac yn mynd i uno gyda
Jerusalem, Porth Tywyn. Yn y cyfarfod
darllenwyd yr englynion hyn gan y Parchg
Meirion Evans:

Eglwys Annibynol SEION Porth Tywyn
Sul, 23 Gorffennaf 2017

Un awr cyn cloi y dorau i gofio
holl gyfoeth ein doeau,
rhoi oes aur a'i thrysorau
i ogof y cof cyn cau.

Os yw ein doe dan gloeon, nac wylwn,
ond gwelwn argoelion
nad distaw fydd y tystion
yn nosau oer yr oes hon.

Meirion Evans

bwysig arall o fod yn aelodau o'r
Cymunedb Byd-eang hwn. Nid Cymru yn
unig yw cylch ein perthyn na chylch ein
consyrn a'n gweddi. Ceir brodyr a
chwiorydd inni ar draws y byd a gallwn
uniaethu'n hunain â nhw yn ein haddoliad,
ein gweddiâu a'n tystiolaeth Gristnogol
dros heddwch, rhyddid a chyfiawnder.

Heddwch a Chymod

Yn yr oedfa agoriadol cawsom ein cyfarch
gan Lywydd yr Almaen, Frank-Walter
Steinemeyer.



Y mae'n aelod gweithgar o gynulleidfa
ddiwygiedig fechan ym Merlin a braf o
beth oedd clywed Llywydd un o wledydd
mwyaf dylanwadol Ewrop yn ein hatgoffa
mai dyma'r adeg i ni (soniodd o hyd
amdanom fel 'ni' ac nid fel 'chi'!)
Gristnogion Diwygiedig y byd i 'wneud
bob ymdrech i hyrwyddo deialog tuag at
heddwch ac i bwysleisio gallu crefydd i
hybu heddwch a chymod yn y byd. Dyma
lle cafodd bobl hyd i'r gwroldeb i sefyll i
fyny yn erbyn gormes a chelwydd,'
meddai'r Llywydd Steinemeyer. 'Dyma lle
cafodd bobl brofiad o'r rhyddid sy'n ein
nerthu i sefyll i fyny. Efallai,' meddai, 'mai
dyma ganlyniad rhyfeddaf ffydd y
Diwygiad Protestannaidd: rhyddid
crefyddol, rhyddid cydwybod, rhyddid
gwleidyddol a rhyddid i benderfynu'n
dyfodol gwleidyddol ein hunain.'

(i'w barhau)

CRIST GERBRON PILAT

Yng
Nghyfarfodydd
Blynyddol
Undeb yr
Annibynwyr,
Rhydaman,
15–17 Mehefin,
fe draddododd
y Parch. Dewi
Myrddin
Hughes ddau
fyfyrdd
Beiblaidd



cofiadwy, dwys a heriol. Dyma ail ran y myfyrddau hyn.

Darlleniad: Efengyl Ioan 18:28–19:16

Daw Pilat â Iesu allan, a chyhoeddi'r 'Ecce homo' enwog. Mae hi fel tase Pilat wedi taro ar y gwir ar ddamwain, fel y gwnaeth Caiaffas. A chymryd mai yn Lladin roedd e'n siarad, gan nad oes bannod, gallai olygu 'wele'r dyn' neu 'wele ddynd'. Mae cyfres o wrthyferbynnu trawiadol o'n blaenau:

- Mae Iesu, wedi'i wisgo fel brenin, coron ddrain ar ei ben a chlogyn porffor dros ei ysgwyddau, ac yn cael ei gyflwyno fel dyn.
- Mae sôn am Iesu yn honni bod yn Fab Duw, a chaiff ei gyflwyno fel dyn.
- Y dyn mae Pilat yn ei gyflwyno, mae darllenwyr cynta yr efengyl a Christnogion y canrifoedd yn ei weld yn ddynd ond hefyd yn Fab Duw.

Mae haen arall o wirionedd yma. Mae dyn ers y cwmpers y dechrau, yn llawn brychau, yn baglu o'r naill bechod i'r llall. Dyma Iesu, yr Adda newydd. Dyn fel y dylai dyn fod. Dyn perffaith. Oes rhai ohonoch chi wedi gweld y coed coch yng Nghaliffornia? Maen nhw'n tyfu i fod yn gan llath o uchder, can llath! Mae ambell ffordd yn mynd drwy ganol bonyn. A rhywun, o'u gweld am y tro cynta, yn dweud, 'Ro'n i'n meddwl mod i wedi gweld coeden o'r blaen, ond dyma beth ydy coeden.' Ro'n i'n meddwl mod i wedi gweld dyn o'r blaen, ond dyma beth ydy dyn. 'Wele ddynd.'

O ble rwyd ti'n dod?

'Fe ddylai farw,' meddai'r Iddewon, 'fe'i gwnaeth ei hun yn Fab Duw.' Pan glywodd Pilat y gair hwn, ofnodd yn fwy byth. Doedd e ddim yn gysurus cynt. Mae rhywbeth o'i le fan hyn. Mae hyn yn rong. 'O ble rwyd ti'n dod?' Ergyd y cwestiwn ydy: ai o blith dynion rwyd ti, ai dyn arall wyt ti, neu a wyt ti'n fwy na dyn, wyt ti o'r nef? Falle bod un o'r duwiau wedi dod i lawr a chael cyfathrach

â merch ifanc ac yntau'n cael ei eni. Mi fyddai wedi clywed am bethe felly. 'O ble rwyd ti'n dod?'

Mae haen arall fan yma eto: 'O ble rwyd ti'n dod? Ti'n ddirgelwch i mi. Weles i neb tebyg i ti.' Byddwn yn sôn yn ysgafn weithiau, am blentyn bach falle, 'Dwn i ddim o ble mae hon wedi dod.' Dwi ddim yn dy ddeall di. Dyma ti o fewn trwch blewyn i gael dy ladd yn y ffordd fwyaf creulon sydd gennym, ac rwyd ti'n trafod 'y gwirionedd' a phynciau athronyddol eraill. Pam na wnei di dy amddiffyn dy hun? Ble mae'r panic? Dw i'n deall monot ti. Ti'n wahanol i bawb.

Mae hwn yn gwestiwn da i ninnau ei ofyn, 'Iesu, o ble rwyd ti'n dod?' Mae'n rhaid bod disgyblion cyntaf Iesu wedi holi, 'O ble ti'n dod?' Ryw ddiwrnod roedden nhw'n cerdded heibio'r fynwent, ble roedd dyn cryf, gwyllt, yn byw a bod ymhlith y beddau. Roedden nhw wedi trio'i ddofi gyda chadwynau, ond roedd yn dal i dorri'i hun â cherrig. Daeth Iesu heibio, siarad ag e, ac roedd y dyn yn eistedd yn dawel ac yn ei iawn bwyll. Mae'n rhaid bod rhyw ddisgybl wedi gofyn, yn ei feddwl os nad yn uchel, 'Iesu, o ble rwyd ti'n dod?' A'r disgyblion yn croesi'r llyn, storm yn codi, Iesu'n ei thawelu, ac mae holi, 'Pwy yw hwn? Y mae hyd hyn oed y gwyntoedd a'r môr yn ufuddhau iddo.' O ble rwyd ti wedi dod Iesu? Weles i neb tebyg i ti. Ti'n Fab Duw.

'Yna traddododd Pilat Iesu iddynt i'w groeshoelio.' Y dyn mwya pwerus yn y wlad a mwy o gonsym amdano'i hun nag am beth sy'n iawn.

Duw'n rhannu ein poen

Mae Iesu wedi rhyddhau cannoedd ar gannoedd o'u poen. Mae e ei hun yn mynd i gael ei groeshoelio. Y gwir ydy na allai Duw ddod i'n pith heb rannu ein poen.

'Traddododd Iesu iddynt i'w groeshoelio.' Ddywedodd e ddim llawer o flaen yr archoffeiriaid a'r Sanhedrin, nac o flaen Pilat, a dim o gwbl o flaen Herod. O hyn ymlaen bydd y cwbl yn ddieiriau, ond mae'r dweud am y cariad mwya welodd y byd erioed ar fin dechrau.

Mi ddywedwyd ar y dechrau mai'r dyn mwya pwerus yn y wlad oedd Pilat. Mae hynny'n wir – ar un lefel. Ond fe wyddon ni pwy yw'r mwya pwerus yn yr hanes. Cafodd yr Ymerodraeth ei herio, a Iesu a'i werthoedd enillodd. Mae'r cwbl â'i ben i waered. Chi'n cofio llinell Robat ap Gwilym Ddu o'i englyn 'Crist gerbron Peilat'? 'A barn Duw gerbron dyn.' Y gwir amdani yw nad Iesu sydd ar brawf. Pilat sydd ar brawf. A chi a fi!

Craig sydd uwch na mi

Samuel Jonathan Griffith (Morswyn) (1850–1893) oedd awdur yr emyn, 'Craig yr oesoedd'. Hanai o Gaerdybi, Môn ac roedd yn aelod yn eglwys Annibynnol y Tabernacl yn y dref honno. Fe'i penodwyd yn arweinydd y gân yno. Priododd gyda Jane Elin Thomas ac fe wynebodd ddwy golled enbyd ym marwolaeth eu dau blentyn, Evan Huw yn ddyflwydd oed ym 1880 a Jane Elin yn ychydig wythnosau oed yn 1882. Ond fe ganfyddodd sicrwydd disig yn yr Arglwydd Iesu.

Yn ôl traddodiad ysgrifennodd yr emyn hwn wrth wyllo'r tonnau'r torri ar y creigiau uwchlaw traeth Porthafarch, Caerdybi. Y mae'r pennill cyntaf yn seiliedig ar Salm 61: 2 'arwain fi i graig a fyddo uwch na mi'. Cyflëir neges yr emyn hefyd yn Salm 40: 2–3.

Arglwydd Iesu, arwain f'enaid
at y graig sydd uwch na mi,
craig safadwy mewn tymhestloedd,
craig a ddeil yng ngrym y lli;
llechu wnaif yng nghraig yr oesoedd,
deued dilyw, deued tân,
a phan chwalo'r greadigaeth
craig yr oesoedd fydd fy nghân.

Pan fo creigiau'r byd yn rhwygo
yn rhyferthwy'r farn a ddaw,
stormydd creulon arna' i'n curo,
cedym fyrdd o'm cylch mewn braw:
craig yr oesoedd ddeil pryd hynny,
yn y dyfroedd, yn y tân;
draw ar gefnfor tragwyddoldeb
craig yr oesoedd fydd fy nghân.

MORSWYN 1850–93

(Caneuon Ffydd rhif 740. gwybodaeth o *Cydymaith Caneuon Ffydd*, Delyth G. Morgans)

Ap Beibl

Ap defnyddiol iawn y gallwch ei lawr lwytho ar ffôn android neu apple yw Ap Beibl. Arno y mae Beibl William Morgan 1588, Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004, beibl.net 2015, Salmau Cân 1621, Salmau Cân Newydd 2008 a'r mis hwn gosodwyd Testament Newydd William Salesbury arno.

Trwy'r ap hwn gallwch fynd â'r Beibl i bob man i'w ddarllen: i'r cwrdd, ar drên, yn y parc, ar lan y môr neu yn y car (ond ddim pan fyddwch yn gyrru). Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw rhoi'r geiriau Ap Beibl yn chwilotwr Play Store neu App Store ac yna lawrlwytho'r ap. Mae'n werth ei gael. Nid yw'r Beibl Cymraeg erioed wedi bod mor hygyrch.

Dyma gyfieithiad (1567) Williams Salesbury o adnodau cyntaf Efengyl Ioan:

- YN y dechrae ydd oedd y Gair, a'r Gair oedd y gyd a Duw, a'r Gair hwnw oedd Duw.
- Hwn oedd yn y dechrae gyd a Duw.
- Oll a wnaethpwyd trwy'r Gair hwnw, ac ebbdaw ny wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd.
- Ynddaw ydd oedd bywyd, a'r bywyd oedd 'oleuni dynion.
- A'r goleuni a dywyn yn y tywyllwch, a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred.

Barn Annibynnol

Rhwydwaith Dirgel Duw

Dwi bron yn siŵr 'mod i'n cofio mynd ar wyliau yn ystod mis Awst a chyrraedd adref a gofyn i ffrindiau, 'Beth sydd wedi bod yn digwydd tra dwi wedi bod i ffwrdd?' O! ddyddiau braf. Bellach, prin fod un awr o'r dydd nac un man yn y byd y gallwn ni ddianc iddo heb fod y ffôn bach neu'r tabled yn dweud wrthym beth sy'n digwydd. Mae cadw mewn cysylltiad mor hawdd ac yn dda ynddo'i hun, mae'n siŵr, ond yr haf hwn mi fyddai wedi bod yn fendith i allu dianc yn llwyr o wleidyddiaeth gythryblus ein byd.

Dadfeilio

Mae'r consensws rhyddfrydol sydd wedi dal pethau at ei gilydd yn y Gorllewin yn dadfeilio a gwledydd ar draws y cyfandiroedd yn dewis syniadau gwleidyddol simplistig a hunanol; maen nhw'n aml yn gwyro at gredoau ffundamentalaid eu gwahanol grefyddau i gyfiawnhau safbwyntiau hyll. Yn America, Twrci, Hwngari, Venezuela, Syria, Israel, Saudi Arabia, heb sôn am Tsieina a Gogledd Corea ... ac ymlaen ac ymlaen, mae rhyw anoddefgarwch at bobl sy'n edrych, meddwl neu gredu'n wahanol wedi ei normaleiddio.

Dim newydd dan haul

Mae golygfeydd ofnadwy Passchendaele yn 1917 wedi'n hatgoffa, yng Nghymru'n

enwedig, o ganlyniadau erchyll peidio â rhoi heddwoch a chymod ar ben yr agenda wleidyddol. Ond bob dydd mae fel pe bai'r cyfan yn cael ei ailadrodd ar ein sgriniau; Mosul heddiw, Syria fory ... y diniwed yn cael eu lladd a'u hamddifadu, bomiau'n ffrwydro yn nwylo'r plant.

Mae'r cyfan yn rhemp a greddf dynoliaeth yn chwilio am rhywun i gymryd y bai.

Bai pwy?

Daethom i arfer â beio ffundamentaliaeth Islamaidd wyredig am yr erchylltra o'n cwrmpas; crefydd ddieithr, pobl ddieithr, anifeiliaid – yn wahanol i ni. Gwir iawn. Ond yr hyn sydd wedi fy nychryn yw agwedd y rhai sy'n arddel yr un ffydd â fi yn America Donald Trump yn cefnogi polisiau sy'n hyrwyddo casineb a thrais yn erbyn yr 'eraill'. Mae'r KKK wedi magu hyfdra newydd gyda chefnogaeth eglwysy gwyn ffundamentalaid. Mae cefnogaeth dyn o'r enw Steve Bannon – prif gynghorydd polisi Donald Trump yn yr ymgyrch etholiadol sydd bellach yn gydwybod ac ymenydd yn y Tŷ Gwyn – wedi cynhyrchu'r ocsigen i'r hyn a ddigwyddodd yn Charlottesville, Virginia ac ymateb tila'r arlywydd i'r Natsiaeth remp.

Mae Steve Bannon yn Babydd o argyhoeddiad ac yn cynrychioli agwedd nifer helaeth o Babyddion yr Unol Daleithiau. Mae'r un agwedd yn bodoli yn yr Eglwys Babyddol yn rhai o wledydd dwyrain Ewrop sy'n chwilio am arweinydd 'cryf' a chreu sect



Euryng Ogwen Williams

'bur'. Roedd Bannon yn allweddol yn y trefniadau i'r Arlywydd Trump gyfarfod y Pab Francis yn gynnar yn ei arlywyddiaeth. Ond er siom mawr iddo, doedd y Pab Francis ddim am weld Bannon gan fod Francis yn ystyried fod ei safbwynt yn anghristnogol ac yn anghydnaws â'r efengyl y dylai Eglwys Iesu Grist ei harddel yn y byd sydd ohoni.

Un teulu

Beth sydd gan y clecs rhyngwladol yma i'w wneud â Chymru fach? Dim byd penodol, mae'n siŵr, ond ein bod ni oll yn rhan o fyd mawr cysylltiedig – yn rhan o 'rhwydwaith dirgel Duw' ys dywedodd Waldo. Mae anghyfartaledd ac anghyfiawnder, rhagfarn a rhagrith, casineb, hunanoldeb a thraha yn dinistrio'r rhwydwaith honno o flaen ein llygaid. Mae'n bosibl credu yn rhy angerddol weithiau, ac ystyried fod unrhyw un sy'n wahanol i ni yn fygythiad ac yn beryglus. Mae'n dda myfyrio ar eiriau Paul at Gristnogion Galatia yn y ganrif gyntaf sydd yr un mor berthnasol i Gristnogion yn yr unfed ganrif ar hugain.

Sdim ots os ydych chi'n Iddew neu'n perthyn i genedl arall, yn gaethwas neu'n ddinesydd rhydd, yn ddyn neu'n wraig – dych chi i gyd fel un teulu sy'n perthyn i'r Meseia Iesu. Galatiaid 3. 28

Euryng Ogwen Williams

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)

F'EWYRTH SEI A HEDD WYN

gan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor

Ganed Simon Jones (1893–1982) i deulu o ffermwyr yn Blaencwm, Cwm Cynllwyd, Llanuwchllyn. Fe oedd yr ifancaf o bump o blant. Lys (Elizabeth Watkin Jones) fy nain, mam fy mam, oedd ei chwaer agosaf o ran oed.



Symudodd y teulu i Danybwllch, Cynllwyd, pan oedd Simon yn wyth a'm nain yn dair ar ddeg. Teulu agos a diwylliedig oedd y teulu hwn oedd yn aelodau ffyddlon o'r achos Methodistaidd sy'n cwrdd yng nghapel bach Cynllwyd. Perthynai'r teulu i dylwyth niferus iawn yn yr ardal gyda'u gwreiddiau'n ddwfn iawn yn y fro, yn olrhain eu tras yn yr ardal yn ôl i'r Oesoedd Canol.

Chwalu Heddwch

Daeth y Rhyfel Mawr i chwalu heddwch y gymdogaeth hon fel y gwnaeth i luoedd o gymdogaethau ar hyd y wlad. Pan ddaeth consgripsiwn fe aeth nifer o fechgyn ifainc y gymdogaeth i'r fyddin. Yn 1916 daeth yr alwad i Simon Jones (yn y llun) i fynd. Ymunodd â'r un gatrawd a Hedd Wyn, a bu'r ddau yn y gwersyll hyfforddi yn Litherland, ger Lerpwl, cyn cael eu symud i Ffrainc.

Brwydr Waedlyd

Daeth y ddau i adnabod ei gilydd yn y fyddin. Ychydig cyn y frwydr dyngedfennol fe ysgrifennodd Hedd Wyn gerdd ysgafn am Simon a chyfaill iddo o Lanuwchllyn. Dyma'r ail bennill:

*Ond pan ddarfyddo'r Rhyfel
A'r helynt hwn i gyd,
Daw dau o foys Llanuwchllyn
Yn ôl yn wyn eu byd;
Rhieni o'u pryderon
A'u clwyfau dro'nt yn iach,
Pan welant wyneb Simon
A chlywed llais Ned bach.*

Ac yn wir, dychwelodd y ddau adre. Ond nid Hedd Wyn, wrth gwrs. Fore'r ymosodiad gwaedlyd at Gefnen Pilckem ar 31 Gorffennaf 1917, aethant 'dros y top' gyda'i gilydd.

Llyfr Newydd

Cofnodwyd beth ddigwyddodd wedyn gan Robin Gwyndaf mewn cyfweiliad â Simon Jones ychydig flynyddoedd cyn ei farw, mae'n gofnod dirdynol. Cyhoeddwyd cyfrol gan Robin yn yr Eisteddfod eleni sy'n olrhain yr hanes yn llawn, ac fe adroddir yr hanes yn y Cwrdd Chwarter yn Seilo, Llanelger.

Eglwys Annibynnol Bethel, Tal-y-bont

Gwahoddir Ceisiadau am Weinidog/Arweinydd Rhan-amser I gynorthwyo ymdrechion yr aelodau (75 mewn nifer) i gynnal yr achos mewn pentref gwledig, bywiog a Chymraeg.

Dyddiad cychwyn **1 Ebrill 2018**,
Telerau i'w Trafod

Ceisiadau trwy lythyr erbyn
15 Medi 2017

Cysyllter â: Phil Davies,
Gwynionydd, 4 Maes-y-felin,
Tal-y-bont Ceredigion, SY24 5DZ
01970 832384
gwynionydd@btinternet.com

Yn Aberth i'r Wladwriaeth

Dau a orfodwyd i weithredu yn groes i'w hewyllys a'u hanian oedd Simon a Hedd Wyn, dywedodd Simon: 'Odd Hedd Wyn, wyddoch chi, dod o ddim yn filwr, 'de. Do'n i ddim yn filwr fy hun ...'

Y wladwriaeth a'u gorfododd i weithredu yn groes i'w daliadau, a'u haberthu yn y broses.

I weld rhan o'r sgwrs rhwng y diweddar Simon Jones â Robin Gwyndaf, ewch i: amgueddfa.cymru/3322/